eiriolaeth
Y Rhaglen Edau Euraidd
Galluogi barn, dymuniadau a theimladau

age Cymru
Creu Cymru oed gyfeillgar

# Pwysigrwydd Eiriolaeth 7

## Adolygiad o wasanaethau eiriolaeth i oedolion yng Nghymru gyda ffocws arbennig ar bobl hŷn



2020

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| ***1. Crynodeb Gweithredol*** | 3 |
| ***2. Adolygiad o wasanaethau eiriolaeth i oedolion yng Nghymru gyda ffocws arbennig ar bobl hŷn*** | 4 |
| Cyflwyniad | 4 |
| Methodoleg | 5 |
| Prif ganfyddiadau ers Pwysigrwydd Eiriolaeth 6 | 6 |
| Nifer o wasanaethau a phobl a gefnogwyd | 7 |
| Staff a gwirfoddolwyr eiriolaeth | 7 |
| Gwasanaethau eiriolaeth wedi'u hariannu'n arbennig ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru | 8 |
| Gwasanaethau eiriolaeth ar gyfer grŵp ehangach o gleientiaid ond caiff pobl hŷn eu cefnogi fel rhan o'r gwasanaeth | 8 |
| Iaith | 9 |
| Ansawdd a safonau | 9 |
| Casgliadau ac argymhellion | 10 |
| ***3. Datblygiadau Eiriolaeth yng Nghymru*** | 12 |


## Diolchiadau


Mae Age Cymru yn ddiolchgar i'r holl ddarparwyr gwasanaethau eiriolaeth a gymerodd amser i gwblhau'r arolwg ar-lein ac i'r rheiny a gytunodd i ni gysylltu â nhw er mwyn casglu ymatebion mwy manwl i rai o'r materion a godwyd.

Yn ogystal, hoffem ddiolch i bawb a gynorthwyodd i baratoi'r arolwg er mwyn ei gyhoeddi'n fyw ac yn y gwaith o gynhyrchu'r adroddiad.



**Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:**

Louise Hughes
Pennaeth Diogelu ac Eirioli
Age Cymru
St Andrews Park
Queen's Lane
Parc Diwydiannol Bromfield
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 1XB

01352 706228
Louise.hughes@agecymru.org.uk

**Ar gyfer ymholiadau cyffredinol:**

Age Cymru
Llawr Gwaelod
Tŷ Mariners
Llys Trident
Heol East Moors
Caerdydd
CF24 5TD

029 2043 1555

# 1. Crynodeb Gweithredol

**Mae Pwysigrwydd Eiriolaeth 7 yn darparu cipolwg wedi'i ddiweddaru ar ddarpariaeth eiriolaeth yng Nghymru i oedolion, gyda phwyslais arbennig ar bobl hŷn. Ymddengys bod y nifer gyffredinol o eiriolwyr, pobl sy'n cael cefnogaeth, a'r nifer o wasanaethau a ariennir i ddarparu eiriolaeth ledled Cymru, i gyd wedi cynyddu ers adroddiad yr arolwg diwethaf yn 2018.**

Cyfoethogwyd dadansoddiad o ymatebion i'r arolwg gan gyfweliadau dilynol gydag ymatebwyr, ynghyd â thrafodaethau yng nghyfarfodydd rhwydwaith eiriolaeth ledled Cymru. Mae'r dadansoddiad yn awgrymu bod y cynnydd yn debygol o fod yn sgil ymwybyddiaeth lawer ehangach o'r gwasanaethau eiriolaeth sydd eisoes yn bodoli yn hytrach na chynnydd sylweddol yn y nifer o wasanaethau newydd. Mae cynnydd yn lefelau ymgysylltu gan ddarparwyr eiriolaeth dros y ddwy flynedd ddiwethaf gyda gweithgareddau megis yr arolwg Pwysigrwydd Eiriolaeth yn rhoi darlun ehangach o'r gwasanaethau eiriolaeth i oedolion yng Nghymru.

Bellach mae ymwybyddiaeth a dealltwriaeth well o'r nifer, ansawdd, ystod ac amrywiaeth o eiriolaeth sy'n bodoli ledled Cymru ymhlith darparwyr eiriolaeth, comisiynwyr awdurdodau lleol a hefyd gan Lywodraeth Cymru. Cam pwysig i'r dyfodol yw adeiladu ar y ddealltwriaeth ehangach hon i ddarpar ddefnyddwyr y gwasanaeth, gwasanaethau gwybodaeth a chyngor a hefyd i weithwyr cymdeithasol a gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n gweithio'n uniongyrchol â buddiolwyr posibl gwasanaethau eiriolaeth.

Mae angen rhagor o hyfforddiant a gwybodaeth ar weithwyr proffesiynol i gynyddu eu hymwybyddiaeth o eiriolaeth a hefyd hawliau pobl i ddefnyddio'r gwasanaethau hyn er mwyn sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu bodloni.

Yn gyffredinol, mae gan reolwyr awdurdodau lleol ddealltwriaeth well bellach o'r gwasanaethau eiriolaeth sydd ar waith yn eu hardal a hefyd eu cyfrifoldebau o ran comisiynu gwasanaethau eiriolaeth. Golyga hyn mai'r prif faes twf ers Pwysigrwydd Eiriolaeth 6 yw'r nifer o wasanaethau eiriolaeth broffesiynol annibynnol a gomisiynwyd dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf), sydd bellach wedi cynyddu o bedair i 20 ardal awdurdod lleol ar adeg ymgymryd â'r arolwg.

O bwys penodol i Age Cymru yw'r gostyngiad parhaus yn y nifer o ddarparwyr eiriolaeth arbenigol ac eiriolwyr i bobl hŷn. Mae colli darparwr arbenigol ychwanegol ers 2018 yn golygu bod gostyngiad pellach yn y ffocws arbenigol a'r arbenigedd ar gyfer cefnogi pobl hŷn drwy wasanaethau eiriolaeth sy'n canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar, atal ac eiriolaeth yn y gymuned. Mae pobl hŷn yn gynyddol ddibynnol ar ddefnyddio eiriolaeth statudol lefel uwch.

Yng ngoleuni'r gofynion newydd a orfodir ar awdurdodau lleol, rhagwelir y bydd y galw am wasanaethau eiriolaeth yn parhau i gynyddu ac felly mae argaeledd a chynaliadwyedd gwasanaethau yn flaenoriaeth i bawb sydd ynghlwm â'r gwaith. Mae cyfweliadau gyda darparwyr eiriolaeth a sylwadau a wnaed yn ystod yr arolwg yn awgrymu bod achosion yn mynd yn fwyfwy cymhleth ac yn cymryd mwy o amser a bydd hyn hefyd yn cael effaith ar gynaliadwyedd gwasanaethau yn y dyfodol.

# 2. Adolygiad o wasanaethau eiriolaeth i oedolion yng Nghymru gyda ffocws arbennig ar bobl hŷn

## Cyflwyniad

Pleser gennym yw cyhoeddi Pwysigrwydd Eiriolaeth 7, ein seithfed adroddiad ar ddarpariaeth eiriolaeth i oedolion yng Nghymru gyda phwyslais penodol ar bobl hŷn.

Dros y 14 blynedd diwethaf, mae Age Cymru wedi bod yn adolygu argaeledd gwasanaethau, materion ynglŷn â chyllid a chynaliadwyedd, ansawdd gwasanaeth a hyfforddiant eiriolwyr, eiriolaeth a'i rôl wrth ddiogelu, hygyrchedd o ran iaith, a gwybodaeth a dealltwriaeth o newidiadau deddfwriaethol mewn eiriolaeth.

Mae ein tystiolaeth wedi cael ei defnyddio i ddylanwadu ar gyllidwyr grantiau, comisiynwyr, a Gweinidogion yn Llywodraeth Cymru. Rydym wedi galw am derfynu'r loteri cod post o ran argaeledd, am ddull ariannu mwy cyson, ar gyfer cynaliadwyedd gwell yn y sector ac yn bwysicach fyth er mwyn i'r bobl sydd angen cefnogaeth gan y gwasanaethau hyn gael mynediad atynt lle bynnag y maent yng Nghymru. Galwom hefyd am ddyletswydd statudol newydd ar gyfer eiriolaeth dan y Ddeddf.

Mae eiriolaeth annibynnol yn wasanaeth hanfodol i unigolion sicrhau bod yr unigolyn (a'u canlyniadau lles) yn ganolog i waith gwasanaethau cefnogi. Mae eiriolaeth yn rhoi llais, dewis a rheolaeth i bobl er mwyn cyflawni eu canlyniadau lles.

Mae datblygiadau sylweddol wedi bod ym maes eiriolaeth annibynnol yn y cyfnod rhwng Pwysigrwydd Eiriolaeth 5 (2016), hyd at Pwysigrwydd Eiriolaeth 6 (2018) a nawr Pwysigrwydd Eiriolaeth 7 (2020). Mae'r Ddeddf yn gosod gofyniad ar awdurdodau lleol i wneud eiriolaeth ar gael i bob unigolyn yng Nghymru sydd mewn amgylchiadau penodol, gan gynnwys (ond nid yn arbennig i'r canlynol) asesu, cynllunio gofal, adolygu a diogelu. Bellach, mae bron i bob Awdurdod Lleol wedi comisiynu gwasanaethau i gydymffurfio â'r gofynion hyn gyda nifer ohonynt yn paratoi i adolygu ac ail-dendro'r gwasanaethau hyn.

Mae Pwysigrwydd Eiriolaeth 7 yn cyflwyno canfyddiadau ein harolwg diweddaraf. Mae'n archwilio'r canfyddiadau yng ngoleuni'r trosglwyddiad o gwblhau prosiectau ar raddfa fawr wedi'u hariannu gan grantiau i gwblhau'r don gyntaf o wasanaethau Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol a roddwyd ar waith dan y gofyniad eiriolaeth newydd yn y Ddeddf. Bydd Pwysigrwydd Eiriolaeth 7 yn darparu cipolwg eang o'r sefyllfa gyfredol yng Nghymru.


## *Methodoleg*

Defnyddiwyd arolwg ar-lein i ddosbarthu ein cwestiynau i ddarparwyr. Mae gennym wybodaeth gynhwysfawr o'r sector eiriolaeth yng Nghymru ond aethom ati i ymgymryd ag ymarfer bwrdd gwaith pellach i sicrhau ein bod yn ymgysylltu â chymaint o ddarparwyr â phosibl.

Mae ymatebwyr yr arolwg Pwysigrwydd Eiriolaeth yn dethol eu hunain. Ceisir ymatebion gan sefydliadau sy'n cael eu hariannu i ddarparu gwasanaethau eiriolaeth i oedolion ledled Cymru. Cesglir gwybodaeth hefyd ar y gefnogaeth a roddir i bobl hŷn naill ai drwy wasanaethau pwrpasol neu fel rhan o'r grŵp cleientiaid ehangach. Er yr holl ymdrechion, ni allwn warantu bod gennym ddata gan yr holl ddarparwyr.

Roedd y data a gasglom yn hydredol, ac felly yn adlewyrchu'r arolygon eraill yn ein cyfres; rydym wedi echdynnu data i greu'r darlun mwyaf o wasanaethau eiriolaeth yng Nghymru, gan wneud y data yn ddefnyddiol i gomisiynwyr, darparwyr yn ogystal â dinasyddion.

Yn wreiddiol, anfonasom yr arolwg yng Ngorffennaf 2019, gan gysylltu'n uniongyrchol â chymaint o ddarparwyr ag y gallem, gan gynnwys y rheiny yr oeddem wedi cael ymatebion ganddynt eisoes drwy arolygon yn y gorffennol a'r rheiny y dygwyd i'n sylw drwy'r Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd yn ystod y cyfnod ymyrryd. Roeddem yn ymwybodol bod llawer yn newid yn y sector eiriolaeth ac mae gennym gyfrifoldeb i gynhyrchu cipolwg clir a chywir yn yr adroddiad hwn.



# Prif Ganfyddiadau ers Pwysigrwydd Eiriolaeth 6

- Mae gostyngiad parhaus wedi bod yn y nifer o wasanaethau eiriolaeth (o 13 i 12) sy'n arbennig ar gyfer pobl hŷn.

- Mae cynnydd o 85% wedi bod yn y gwasanaethau sy'n darparu eiriolaeth i grŵp cleientiaid ehangach. Mae'n gynnydd o 41 i 76 gwasanaeth.

- Mae llai o eiriolwyr yn darparu eiriolaeth yn arbennig ar gyfer pobl hŷn (o 37 i 31).

- Mae 107 eiriolwr cyflogedig llawn amser yn gweithio ledled Cymru. Mae'r ffigwr hwn wedi dyblu.

- Mae 79 o eiriolwyr cyflogedig rhan amser, sy'n gynnydd o 25%.

- Mae 140 o eiriolwyr gwirfoddol yn gweithio mewn amrywiaeth o wasanaethau eiriolaeth ledled Cymru. Mae hwn bron i dair gwaith yn fwy na'r ffigwr yn Pwysigrwydd Eiriolaeth 6.

- Y cyfanswm o bobl hŷn a gafodd eu cefnogi ar draws yr holl wasanaethau dros y 12 mis diwethaf oedd 8,153, cynnydd o bron i 2,700 o Pwysigrwydd Eiriolaeth 6.

- Cafodd 523 yn llai o bobl hŷn eu cefnogi gan wasanaethau eiriolaeth wedi'u hariannu'n arbennig ar gyfer pobl hŷn mewn cymhariaeth â 2016. Mae hwn yn ostyngiad o 31%.

- Bu i'r cyfanswm o bobl hŷn a gafodd eu cefnogi ar draws yr holl wasanaethau dros y 12 mis diwethaf yng Nghymru gynyddu o 62%, i 16,909.

- Mae gwasanaethau sy'n cael eu hariannu yn arbennig ar gyfer pobl hŷn yn parhau i fod yn 15 yn unig o'r 22 ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Mae gwasanaethau ar gyfer grŵp ehangach o gleientiaid yn parhau i fod yn bresennol ym mhob awdurdod lleol.

- Ar adeg ymgymryd â'r arolwg, nid oedd dau awdurdod lleol yng Nghymru wedi comisiynu eu gwasanaethau eiriolaeth broffesiynol annibynnol fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.



## *Nifer o wasanaethau a phobl a gefnogwyd*

| | Pwysigrwydd Eiriolaeth 5 2016 | Pwysigrwydd Eiriolaeth 6 2018 | Pwysigrwydd Eiriolaeth 7 2020 |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm o ymatebwyr | 22 | 22 | 33 |
| Nifer o wasanaethau wedi'u hariannu'n arbennig ar gyfer pobl hŷn | 19 | 13 | 12 |
| Nifer o sefydliadau yn darparu'r gwasanaethau hyn | 13 | 7 | 6 |
| Nifer o wasanaethau eiriolaeth eraill wedi'u hariannu lle mae pobl hŷn yn rhan o'r grŵp cleientiaid | 44 | 41 | 76 |
| Nifer o sefydliadau yn darparu'r gwasanaethau hyn | 15 | 18 | 30 |
| Cyfanswm y bobl a gefnogwyd | Anhysbys | 10,402 | 16,909 |
| Cyfanswm y bobl hŷn a gefnogwyd | 6,412 | 5,466 | 8,153 |
| Nifer o ardaloedd awdurdod lleol gyda gwasanaethau wedi'u hariannu ar gyfer grŵp cleientiaid ehangach | 22 | 22 | 22 |
| Nifer o ardaloedd awdurdod lleol gyda gwasanaethau wedi'u hariannu'n arbennig ar gyfer pobl hŷn | 17 | 15 | 15 |

(Noder y gall un darparwr feddu ar fwy nag un gwasanaeth eiriolaeth a bydd gan rai ohonynt wasanaethau yn arbennig ar gyfer pobl hŷn yn ogystal â gwasanaethau i grŵp cleientiaid ehangach).

## *Staff a gwirfoddolwyr eiriolaeth*

| | Pwysigrwydd Eiriolaeth 5 2016 | | Pwysigrwydd Eiriolaeth 6 2018 | | Pwysigrwydd Eiriolaeth 7 2020 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwasanaethau pobl hŷn | Pob math o wasanaeth | Gwasanaethau pobl hŷn | Pob math o wasanaeth | Gwasanaethau pobl hŷn | Pob math o wasanaeth |
| Llawn Amser | 20 | 87 | 10 | 44 | 8 | 99 |
| Rhan Amser | 23 | 43 | 12 | 51 | 10 | 69 |
| Gwirfoddolwr | 30 | 36 | 15 | 38 | 13 | 127 |

## *Gwasanaethau eiriolaeth wedi'u hariannu'n arbennig ar gyfer pobl hŷn (50+) yng Nghymru*

Mae ein harolwg yn awgrymu bod 12 gwasanaeth wedi'u hariannu'n arbennig ar gyfer pobl hŷn, mewn cymhariaeth â 13 yn 2016. Mae'r nifer o sefydliadau sy'n darparu'r gwasanaethau hynny wedi gostwng o saith i chwech. Mae tri o'r sefydliadau yn darparu dau wasanaeth eiriolaeth yr un, gyda dau yn darparu un gwasanaeth yr un a'r sefydliad sy'n weddill yn darparu pedwar gwasanaeth.

Nid yw'n syndod felly bod y nifer o bobl hŷn a gafodd eu cefnogi gan y gwasanaethau hyn yn ystod y 12 mis diwethaf wedi gostwng, o 1,709 yn 2018 i 1,186 yn 2020. Mae'r nifer o eiriolwyr cyflogedig a gwirfoddol hefyd wedi gostwng o 37 yn 2018 i 31 yn 2020.

Adroddodd ymatebwyr i'n harolwg eu bod yn cael eu hariannu i ddarparu ystod eang o wasanaethau eiriolaeth ar draws y categorïau a restrir yn Rhan 10 Cod Ymarfer (Eiriolaeth) sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf. Fodd bynnag, mae anghysondeb yn parhau i fod yn argaeledd y gwasanaethau hyn ledled Cymru, yn enwedig ar gyfer pobl hŷn.

Yn ddaearyddol, roedd gostyngiad yn y nifer o siroedd a oedd yn cynnig gwasanaethau eiriolaeth yn arbennig ar gyfer pobl hŷn rhwng 2016 a 2018, o 17 i 15. Er collwyd un sefydliad a oedd yn cefnogi pobl hŷn yn benodol, nid yw'r nifer o siroedd wedi gostwng ac mae'n parhau i fod yn 15. Yr ardaloedd awdurdod lleol sydd â bylchau yn y gwasanaethau yw; Pen-y-bont ar Ogwr, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir y Fflint, Merthyr, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe. Fodd bynnag, gall pobl hŷn gael mynediad at gefnogaeth gan wasanaethau gyda grŵp cleientiaid ehangach gan fod pob ardal awdurdod lleol yn meddu ar o leiaf saith gwasanaeth eiriolaeth, fel yr adnabuwyd drwy waith mapio gwasanaethau eiriolaeth a ymgymerwyd gyda chymorth gwasanaethau yn mynychu'r cyfarfodydd rhwydwaith eiriolaeth ledled Cymru.

## *Gwasanaethau eiriolaeth ar gyfer grŵp ehangach o gleientiaid ond caiff pobl hŷn eu cefnogi fel rhan o'r gwasanaeth*

Mae nifer yr ymatebion i arolwg Pwysigrwydd Eiriolaeth 7 wedi codi mewn cymhariaeth â phob fersiwn flaenorol yr arolwg. Cwblhaodd 33 sefydliad yr arolwg hwn mewn cymhariaeth ag uchafswm o ychydig dros 20 ar gyfer bob un o'r arolygon blaenorol. O ganlyniad, mae'r ffigyrau cyffredinol ar gyfer bob ardal darparu gwasanaeth, ar gyfer gwasanaethau sy'n cefnogi oedolion o bob oedran, wedi cynyddu i'r lefelau uchaf a gofnodwyd mewn cymhariaeth ag adroddiadau blaenorol.

Ers 2018 mae'r nifer o wasanaethau yn darparu eiriolaeth i grŵp cleientiaid ehangach lle mae pobl hŷn hefyd yn cael eu cefnogi wedi codi o 85%, i 76 yn 2020. Mae'r nifer o bobl sydd wedi'u cefnogi gan y gwasanaethau hyn hefyd wedi cynyddu i 16,909 o 10,402 yn 2018.

Mae'r nifer o sefydliadau sy'n darparu'r gwasanaethau hyn wedi parhau i gynyddu, gyda'r ffigwr yn cynyddu o 18 i 30 yn y ddwy flynedd diwethaf. Yn yr un modd, mae'r nifer o eiriolwyr llawn amser a rhan amser wedi codi i'r lefelau uchaf a adroddwyd yng nghyfres adroddiadau Pwysigrwydd Eiriolaeth. Y nifer o eiriolwyr gwirfoddol sydd wedi cynyddu fwyaf, gan godi o 53 yn 2018 i 140 yn 2020.

Yn wahanol i'r gwasanaethau eiriolaeth sy'n cael eu hariannu'n arbennig ar gyfer pobl hŷn, mae'r nifer o bobl hŷn sy'n cael eu cefnogi o fewn gwasanaethau ar gyfer grŵp oedran ehangach wedi parhau i gynyddu'n sylweddol, gyda chynnydd o 3,757 yn 2018 i 6,967 yn 2020. Ymddengys, felly, bod canran hyd yn oed yn uwch o bobl hŷn (85%) bellach yn cael cefnogaeth eiriolaeth gan wasanaethau sy'n gweithio gydag oedolion o bob oed yn hytrach na gan wasanaethau sydd wedi'u neilltuo i gefnogi pobl hŷn yn unig. Yn gyffredinol, mae'r cyfanswm o bobl hŷn sy'n cael cefnogaeth eiriolaeth hefyd wedi codi ers 2018 i'r lefel uchaf a gofnodwyd erioed sef 8,153.

Mae ystod hyd yn oed ehangach o wasanaethau eiriolaeth na adroddwyd yn flaenorol yn cael eu darparu ledled Cymru, yn ymdrin â phob math o eiriolaeth a ddisgrifir yn Rhan 10 Cod Ymarfer (Eiriolaeth) y Ddeddf. Ers Pwysigrwydd Eiriolaeth 6, mae'r nifer o ardaloedd awdurdod lleol lle mae gwasanaethau eiriolaeth broffesiynol annibynnol wedi'u comisiynu dan y Ddeddf sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd, wedi cynyddu o bedwar i 20.

Roedd ymdriniaeth ddaearyddol lwyr barhaus o ran gwasanaethau eiriolaeth ar gyfer grŵp cleientiaid ehangach ledled Cymru. Gan adeiladu ar ganlyniadau'r arolwg, mae tîm y Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd wedi mapio'r ystod o wasanaethau eiriolaeth ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru, gan ymgymryd â chyfweliadau dilynol lle bynnag lle bo angen. Mae'r canlyniadau yn dangos bod o leiaf saith math gwahanol o wasanaethau eiriolaeth ar gael i oedolion ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru, yn dibynnu ar eu cymhwysedd.

**Mae rhai sylwadau ychwanegol a wnaed gan y gwasanaethau yn cynnwys:**

*"Galw cynyddol am waith cyfaill cyfreitha, ond dim cyllid ar gael. Yn gyffredinol, mae'r galw y tu hwn i'r cyllid."*

*"Mae'r materion y cyfeirir atynt yn ein gwasanaeth eiriolaeth un i un yn dod yn fwyfwy cymhleth ac mae achosion unigol yn hawlio mwy o oriau eiriolaeth."*

*"Achosion sy'n cynnwys cefnogi pobl sy'n profi caethwasiaeth modern."*

*"Mae angen rhagor o gyllid gan fydd y galw yn cynyddu gyda'r rhagfynegiad cyfredol o boblogaeth hŷn."*

*"Mae angen gwneud mwy o waith gydag awdurdodau lleol i godi ymwybyddiaeth o'u cyfrifoldebau dan y Ddeddf, a gyda'u staff hefyd. Mae angen rhagor o gefnogaeth ar awdurdodau lleol i ddynodi'r adnoddau y mae angen iddynt eu cyflwyno at ddibenion eiriolaeth."*

## Iaith

Wrth ddarparu gwasanaethau eiriolaeth i sicrhau bod lleisiau dinasyddion yn cael eu clywed a'u dymuniadau yn cael eu parchu, mae'n angenrheidiol cynnig cefnogaeth yn y cyfrwng y maen nhw'n fwyaf cyfforddus ag ef, boed yn Gymraeg neu Saesneg.

Mae cynnydd wedi bod yn y nifer o sefydliadau sydd ag eiriolwyr Cymraeg, o 10 yn 2018 i 16 yn 2020. Cynrychiola hyn beth gwelliant gyda 55% o'n hymatebwyr bellach yn cael eiriolwyr Cymraeg mewn cymhariaeth â 50% yn y gorffennol. Mae'r nifer gwirioneddol o eiriolwyr Cymraeg cyflogedig wedi cynyddu hefyd o 34 i 46.

Mae'r nifer o bobl sy'n hawlio cefnogaeth eiriolaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn parhau i fod yn isel iawn, gyda bron i 90% o'r gwasanaethau yn adrodd bod 10% neu lai o'u cefnogaeth yn cael ei darparu yn Gymraeg, a nifer yn adrodd nad oes neb o gwbl yn hawlio gwasanaethau yn Gymraeg.

## Ansawdd a safonau

Yn 2020, mae 70% o'r ymatebwyr yn meddu ar Farc Ansawdd Perfformiad neu'n gweithio tuag ato, sy'n welliant sylweddol ar y sefyllfa a adroddwyd yn Pwysigrwydd Eiriolaeth 6 lle nad oedd hanner y sefydliadau yn meddu ar Farc Ansawdd Perfformiad a ddim yn gweithio tuag ato.

Mae cynnydd parhaus yn y nifer o sefydliadau sydd â staff yn meddu ar Gymhwyster Eiriolaeth Cenedlaethol City and Guild's. Cynyddodd yn y cyfnod rhwng 2013 a 2018 o 9 i 16, ac mae wedi cynyddu eto bellach i 21. I ategu at hyn, mae gan dri sefydliad eiriolwyr sydd naill ai'n meddu ar gymhwyster BA mewn Eiriolaeth neu'n gweithio tuag ato.

## *Canfyddiadau ac argymhellion*



Mae Pwysigrwydd Eiriolaeth 7 yn darparu cipolwg ar ddarpariaeth eiriolaeth yng Nghymru i oedolion, gyda phwyslais arbennig ar bobl hŷn. Ymddengys bod y nifer gyffredinol o eiriolwyr, pobl sy'n cael cefnogaeth, a'r nifer o wasanaethau a ariennir i ddarparu eiriolaeth ledled Cymru, i gyd wedi cynyddu ers adroddiad yr arolwg diwethaf yn 2018.

Fodd bynnag, nid yw cyfweliadau dilynol gydag ymatebwyr a thrafodaethau mewn cyfarfodydd rhwydwaith eiriolaeth ledled Cymru yn cefnogi'r cysyniad bod cynnydd sylweddol wedi bod yn y nifer o sefydliadau newydd a sefydlwyd neu wasanaethau newydd a gomisiynwyd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae trafodaethau yn awgrymu bod y rhan fwyaf o'r cynnydd yn debygol o fod yn sgil ymwybyddiaeth lawer ehangach o'r gwasanaethau eiriolaeth sydd eisoes yn bodoli a chynnydd cyfatebol yn lefel ymgysylltu gan ddarparwyr eiriolaeth gyda gweithgareddau megis yr arolwg Pwysigrwydd Eiriolaeth. Felly, gellir casglu bod canlyniadau Pwysigrwydd Eiriolaeth 7 yn darparu darlun ehangach o wasanaethau eiriolaeth i oedolion yng Nghymru. Mae'r ymwybyddiaeth ehangach hon hefyd wedi datblygu yn y sector eiriolaeth ei hun gan fod sefydliadau bellach yn adrodd eu bod yn gwybod mwy am ei gilydd. O ganlyniad, gallant archwilio cyfleoedd cydweithredu a chefnogi ei gilydd.

Bellach, mae gan awdurdodau lleol ddealltwriaeth well o'r gwasanaethau eiriolaeth sydd ar waith yn eu hardal a hefyd eu cyfrifoldebau o ran comisiynu gwasanaethau eiriolaeth. Golyga hyn mai'r prif faes twf newydd ers Pwysigrwydd Eiriolaeth 6 yw'r nifer o wasanaethau eiriolaeth broffesiynol annibynnol a gomisiynwyd dan y Ddeddf, sydd bellach wedi cynyddu o bedair i 20 ardal awdurdod lleol ar adeg ymgymryd â'r arolwg.

Mewn rhai ardaloedd, mae'r rhain yn wasanaethau newydd lle nad oes dim o'r fath wedi bodoli'n flaenorol. Mewn llefydd eraill, mae'r gwasanaethau eiriolaeth sy'n bodoli eisoes wedi'u ffurfioli a'u hunioni gyda gofynion y Ddeddf neu mae gwasanaeth newydd wedi'i gomisiynu i ddisodli'r ddarpariaeth gyfredol. Amlygwyd pryderon yn ystod cyfweliadau y gall cyflawni'r gofynion statudol ar gyfer eiriolaeth gael effaith ar argaeledd eiriolaeth ataliol ar lefel is yn y gymuned. Mae dadansoddiad cychwynnol yn awgrymu bod y rhain yn fylchau yn y ddarpariaeth, er bydd angen rhagor o ymchwil a dadansoddi i asesu'n fanwl gywir argaeledd ffurfiau eiriolaeth o'r fath.

Mae'r ymwybyddiaeth a'r ddealltwriaeth well o'r nifer, ansawdd, ystod ac amrywiaeth o eiriolaeth sy'n bodoli yn galonogol iawn. Fodd bynnag, mae cyfweliadau a thrafodaethau dilynol gyda darparwyr eiriolaeth yn awgrymu mai cam pwysig i'r dyfodol yw adeiladu ar y ddealltwriaeth ehangach hon i ddarpar ddefnyddwyr y gwasanaeth.

Maes arall i'w datblygu yn y dyfodol yw gwella ymwybyddiaeth o eiriolaeth, a hawliau pobl, ymhlith gweithwyr cymdeithasol. Er bod gan reolwyr a chomisiynwyr mewn awdurdodau lleol ddealltwriaeth gynyddol, mae angen rhagor o hyfforddiant a gwybodaeth ymhlith gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio'n uniongyrchol â buddiolwyr gwasanaethau eiriolaeth posibl.

O bwys penodol i Age Cymru mae'r gostyngiad parhaus yn y nifer o ddarparwyr eiriolaeth arbenigol ac eiriolwyr ar gyfer pobl hŷn. Mae colli darparwr arbenigol ychwanegol ers 2018 yn golygu bod gostyngiad pellach yn y ffocws arbenigol a'r arbenigedd ar gyfer cefnogi pobl hŷn drwy wasanaethau eiriolaeth sy'n canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar, atal ac eiriolaeth yn y gymuned. Mae pobl hŷn yn gynyddol ddibynnol ar ddefnyddio eiriolaeth statudol lefel uwch.

Mae colli darparwr arbenigol ychwanegol ers 2018 yn arwydd arall o'r newid yn y ffocws comisiynu i ddarparwyr sy'n darparu i bob oedran ar draws ardal ddaearyddol ehangach, gyda 85% o bobl hŷn bellach yn cael eu cefnogi gan wasanaethau eiriolaeth sy'n cefnogi oedolion o bob oedran. Yn gyffredinol, anogir Age Cymru i nodi bod y nifer o bobl hŷn wedi'u cefnogi wedi codi o 50% ers 2018 i'r lefel uchaf a gofnodwyd erioed sef 8,153.

Yng ngoleuni'r gofynion newydd a orfodir ar awdurdodau lleol, rhagwelir y bydd y galw am wasanaethau eiriolaeth yn parhau i gynyddu ac felly mae argaeledd a chynaliadwyedd gwasanaethau yn flaenoriaeth i bawb sydd ynghlwm â'r gwaith. Mae cyfweliadau gyda darparwyr eiriolaeth a sylwadau a wnaed yn ystod yr arolwg yn awgrymu bod achosion yn mynd yn fwyfwy cymhleth ac yn cymryd mwy o amser a bydd hyn hefyd yn cael effaith ar gynaliadwyedd gwasanaethau yn y dyfodol.

Mae Age Cymru yn parhau i fod yn ymroddedig i gefnogi datblygiad y sector eiriolaeth annibynnol yng Nghymru ac yn ei weld fel adnodd hanfodol i ddiogelu lles bob dinesydd, nid yn unig pobl hŷn. Mae menter Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd Age Cymru wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru dros y pedair blynedd ddiwethaf i gefnogi'r gwaith o fewnosod Rhan 10 Cod Ymarfer (Eiriolaeth) y Ddeddf mewn modd strategol ac unedig, gan geisio datblygu gwasanaethau cynaliadwy a chyson ar draws Cymru gyfan. Bydd y Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd yn dod i ben 31 Mawrth 2020. Bydd Age Cymru yn parhau i hyrwyddo mynediad gwell at eiriolaeth i bobl hŷn ledled Cymru a datblygiad eiriolaeth yn y dyfodol yng Nghymru drwy brosiect newydd a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag Age Cymru drwy anfon e-bost at **goldenthreadadvocacy@agecymru.org.uk**

**Noder:**

Mae ymatebwyr yr arolwg Pwysigrwydd Eiriolaeth yn dethol eu hunain. Mae'r ymatebion yn seiliedig ar a ydynt yn darparu gwasanaethau eiriolaeth wedi'u hariannu sy'n benodol ar gyfer pobl hŷn, neu'n eu cynnwys, fel rhan o'u grŵp cleientiaid. Er yr ymdrechwn i gasglu data gan bob darparwr, nid yw cwblhau'r arolwg yn orfodol.

Roedd y data a gasglom yn hydredol, ac felly'n adlewyrchu'r arolygon eraill yn ein cyfres ond rydym wedi echdynnu data i greu'r darlun llawnaf o wasanaethau eiriolaeth yng Nghymru, gan wneud y data yn ddefnyddiol i gomisiynwyr, darparwyr yn ogystal â dinasyddion.

# 3. Datblygiadau eiriolaeth yng Nghymru

## Adolygiad o Ran 10 y Cod Ymarfer (Eiriolaeth)

Mae Rhan 10 Cod Ymarfer (Eiriolaeth) y Ddeddf wedi'i hadolygu ac mae bellach ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru, a daeth i rym 1 Ionawr 2020.

## Newid o drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid i drefniadau Diogelu Rhyddid

Mae deddfwriaeth yng ngofal Senedd y Deyrnas Unedig a fydd yn arwain at drawsnewidiad o'r trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid i'r trefniadau Diogelu Rhyddid diwygiedig yn ystod 2020. Wrth i'r ddeddfwriaeth hon ddatblygu drwy'r Senedd, mae pryder wedi'i fynegi y gallai leihau effeithiolrwydd y dulliau Diogelu sydd wedi'u sefydlu ar gyfer pobl fregus. Bwriedir y bydd y rheoliadau newydd yn dod i rym o 1 Hydref 2020, a bydd rhagor o fanylion ynglŷn ag effeithiau posibl y ddeddfwriaeth hon ar wasanaethau eiriolaeth annibynnol yn cael eu rhyddhau yn ystod 2020.

## Newidiadau ar y gweill i'r Cynghorau Iechyd Cymunedol ac eiriolaeth ar gyfer cwynion

Mae deddfwriaeth yn mynd drwy Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd a fydd yn arwain at newidiadau i Gynghorau Iechyd Cymunedol. Un o effeithiau posibl hyn yw y gallai cylch gwaith gwasanaethau eiriolaeth ar gyfer cwynion y Cynghorau Iechyd Cymunedol ymestyn i ymdrin â chwynion Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'n bosibl na fydd y manylion llawn ynglŷn â chanlyniadau'r ddeddfwriaeth newydd hon o ran eiriolaeth a'r arferion gwaith o fewn iddo yn dod i'r amlwg tan 2021.

## Cyflwyno'r fframwaith cymwysterau newydd a chymwysterau eiriolaeth newydd

Mae newidiadau wedi'u cynnig i'r cymhwyster eiriolaeth yng Nghymru yn dilyn adolygiad o gymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant gan Cymwysterau Cymru. Bydd y newidiadau yn dod i rym fis Medi 2020, er bydd y cymhwyster cyfredol yn cael ei gydnabod fel rhagflaenwr cymhwyster i'r rheiny sydd eisoes wedi'i ddechrau neu eisoes wedi'i gyflawni. Yn ôl cyflwyniad gan Karen Wakelin a Sharon Cole yng Nghynhadledd Eiriolaeth Cymru fis Tachwedd 2019, bydd y newidiadau yn arwain at un cymhwyster lefel 4 sy'n lleihau dyblygiad ac yn rhoi statws cyfartal i bob ffurf ar eiriolaeth.

## Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Nod y Ddeddf hon yw gwella lles pobl Cymru, drwy wella ansawdd gofal cymdeithasol a'r gefnogaeth maent yn ei chael gan ystod eang o ddarparwyr. Un o egwyddorion y Ddeddf yw y bydd unrhyw wasanaeth eiriolaeth broffesiynol annibynnol a gomisiynir, sy'n darparu cefnogaeth dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn cael ei reoleiddio a'i arolygu gan Arolygiaeth Gofal Cymru. Daeth hyn i rym i ddarparwyr eiriolaeth plant fis Ebrill 2019. Mae'r gwaith o'i gymhwyso i eiriolaeth oedolion a'r posibilrwydd ar gyfer effaith ehangach y polisi ar ddarpariaeth eiriolaeth yn dal i'w gyflawni.

# *Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd*

Mae Age Cymru wedi arddangos ymrwymiad sylweddol i ddatblygiad a chynaliadwyedd gwasanaethau eiriolaeth annibynnol i bobl hŷn a dinasyddion yn gyffredinol dros y 14 blynedd diwethaf.

Sefydlwyd y Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd gan Age Cymru mewn partneriaeth ag Age Connects Wales a Diverse Cymru yn 2016 a chaiff ei ariannu gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gwaith mewnosod yr agwedd eiriolaeth ar Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru (2014).

**I gyflawni hyn, sefydlwyd tri amcan allweddol:**

1. **Datblygu Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol i Oedolion yng Nghymru**
2. **Cefnogi a datblygu gallu'r sector eiriolaeth yng Nghymru, a**
3. **Datblygu'r ymwybyddiaeth o eiriolaeth**



**Gweler isod grynodeb o'r hyn sydd wedi'i gyflawni yn ystod dwy flynedd ddiwethaf y rhaglen:**

1. **Datblygu Fframwaith a Phecyn Cymorth ar gyfer Comisiynu eiriolaeth broffesiynol annibynnol i Oedolion dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**

Mae tîm y Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd wedi cynhyrchu fframwaith ar sail ei brofiadau o weithio gydag awdurdodau lleol a darparwyr ledled Cymru, dan arweiniad a chyngor Grŵp Cyfeirio Strategol yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, Iechyd, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Penaethiaid Gwasanaethau Oedolion Cymru gyfan, aelod o Fwrdd y Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd, Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

Cefnogir y fframwaith gan becyn cymorth yn seiliedig ar y cylchred comisiynu (Dadansoddi, Cynllunio, Darparu ac Adolygu). Cynulleidfa gynradd y fframwaith yw awdurdodau lleol a chomisiynwyr gwasanaethau eraill.

Lansiwyd y Fframwaith a'r Pecyn Cymorth mewn digwyddiad ar gyfer staff awdurdodau lleol ar 14 Hydref 2019 ac yng Nghynhadledd Eiriolaeth Cymru ar 7 Tachwedd 2019. Gellir dod o hyd i'r ddwy ddogfen ar dudalennau gwe y Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd ar wefan Age Cymru. Cynhaliwyd gweithdai i gyflwyno'r Fframwaith a'r Pecyn Cymorth i staff awdurdodau lleol ac i archwilio sut allant ddefnyddio'r Fframwaith i gomisiynu eiriolaeth broffesiynol annibynnol i oedolion dan y Ddeddf.

Mae'r Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd wedi hwyluso nifer o weithdai cydweithredol i gefnogi datblygiad strategaethau eiriolaeth lleol a rhanbarthol yn ogystal â bod yn sail i gomisiynu gwasanaethau eiriolaeth. Hyd yn hyn, mae 20 awdurdod lleol wedi comisiynu eiriolaeth broffesiynol annibynnol.

## 2. I gefnogi a datblygu gallu'r sector eiriolaeth yng Nghymru

Mae'r Rhwydwaith Eiriolaeth Cenedlaethol yn cael cyflwyniadau gan ystod o arbenigwyr i gefnogi sgiliau a gwybodaeth eiriolwyr. Mae'r Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd hefyd wedi cefnogi datblygiad rhwydweithiau eiriolaeth rhanbarthol ledled Cymru i ddarparu lleisiau strategol rhanbarthol cryfach. Y bwriad yw y bydd y rhwydweithiau yn dod yn hunangynhaliol.

Mae gwasanaethau eiriolaeth ledled Cymru wedi'u mapio ac mae dogfennau wedi'u rhoi ar dudalennau gwe y Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd i ddangos pa wasanaethau eiriolaeth sydd ar gael ym mhob ardal awdurdod lleol ledled Cymru.

Mae adnoddau a chanllawiau wedi'u cynhyrchu i wella'r ddealltwriaeth o eiriolaeth broffesiynol annibynnol dan y Ddeddf, rôl Unigolion Priodol a sut ellir cynnwys yr eiriolaeth fwyaf effeithiol mewn Asesiadau Poblogaeth.

Trefnodd y Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd Gynhadledd Eiriolaeth Cymru fis Tachwedd 2019, gan ddwyn ynghyd dros 100 o eiriolwyr gweithredol ledled Cymru i drafod ystod o faterion cyfredol drwy gyflwyniadau a gweithdai.

Mae adroddiad Pwysigrwydd Eiriolaeth 7 yn cefnogi'r amcan hwn drwy ddarparu darlun o'r sector eiriolaeth oedolion yng Nghymru.

## 3. Codi ymwybyddiaeth

Mae ystod o adnoddau codi ymwybyddiaeth dwyieithog wedi'u datblygu. Mae'r rhain yn cynnwys llyfrynnau, pamffledi, llyfrnodau, cynrychiolaeth weledol o'r ystod a mathau o wasanaethau eiriolaeth, proses gwneud penderfyniadau ar gyfer atgyfeiriadau eiriolaeth broffesiynol annibynnol a DVD.

Mae'r adnoddau yn cael eu dosbarthu mor eang â phosibl gyda ffocws ar y rheiny sydd o bosibl angen deall rôl eiriolwr a sut allant helpu.

Mae tri chylchlythyr ar ddeg wedi'u cyhoeddi ac maent yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol, diweddariadau, ac arfer dda mewn perthynas ag eiriolaeth. Maent hefyd yn darparu dolenni at ddogfennau defnyddiol, hyfforddiant, gwefannau a newyddion ynglŷn ag eiriolaeth.

Fel y soniwyd uchod, bydd y Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd yn dod i ben 31 Mawrth 2020. Bydd Age Cymru yn parhau i hyrwyddo mynediad gwell at eiriolaeth i bobl hŷn ledled Cymru a datblygiad eiriolaeth yn y dyfodol yng Nghymru drwy brosiect newydd a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Bydd holl adnoddau'r Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd yn parhau i fod ar gael yn **www.agecymru.org.uk/advocacy**

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

diverse cymru
Promoting equality for all
Hyrwyddo cydraddoldeb i bawb

age connects wales.

Age Cymru, Llawr Gwaelod, Tŷ Mariners, Llys Trident,
Heol East Moors, Caerdydd CF24 5TD
Ffôn: 029 2043 1555 Ffacs: 029 2047 1418
E-bost: enquiries@agecymru.org.uk www.agecymru.org.uk

age Cymru
Creu Cymru oed gyfeillgar

Mae Age Cymru yn elusen gofrestredig 1128436. Cwmni cyfyngedig trwy warant ac wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr 6837284. Swyddfa gofrestredig fel yr uchod. ©Age Cymru 2020

***Dilynwch ni ar:*** facebook.com/agecymru twitter.com/agecymru